# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 8**

ADOLYGIADAU AC APELAU

**PENNOD 2**

ADOLYGIADAU

## 176 Cynnal adolygiad

(1) Mae natur a chwmpas yr adolygiad i fod fel ag y maent yn ymddangos yn briodol i ACC o dan yr amgylchiadau.

(2) At ddiben is-adran (1), rhaid i ACC, yn benodol, roi sylw i gamau a gymerwyd cyn dechrau'r adolygiad—

(a) gan ACC wrth ddod i'r penderfyniad, a

(b) gan unrhyw berson wrth geisio datrys anghytundeb ynghylch y penderfyniad.

(3) Rhaid i'r adolygiad ystyried unrhyw sylwadau a wneir neu a wnaed gan y person a roddodd yr hysbysiad am gais ar adeg sy'n rhoi cyfle rhesymol i ACC eu hystyried.

(4) Caiff yr adolygiad ddod i'r casgliad bod penderfyniad ACC—

(a) i'w gadarnhau,

(b) i'w amrywio, neu

(c) i'w ganslo.

(5) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad am gasgliadau'r adolygiad i'r person a roddodd yr hysbysiad am gais—

(a) o fewn y cyfnod o 45 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y derbyniodd ACC yr hysbysiad am gais, neu

(b) o fewn unrhyw gyfnod arall y bydd ACC a'r person yn cytuno arno.

(6) Pan fo'r tribiwnlys yn cyfarwyddo ACC i gynnal adolygiad, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad am gasgliadau'r adolygiad—

(a) o fewn y cyfnod o 45 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddodd y tribiwnlys y cyfarwyddyd, neu

(b) o fewn unrhyw gyfnod arall y bydd ACC a'r person yn cytuno arno.

(7) Os yw ACC yn methu â dyroddi hysbysiad yn unol ag is-adran (5) neu (6)—

(a) bernir bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod penderfyniad ACC i'w gadarnhau, a

(b) rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r person a roddodd yr hysbysiad am gais.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 176 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 176 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 176.